

<b>Adroddiad i'r</b>	<b>Pwyllgor Craffu Perfformiad</b>
<b>Dyddiad y cyfarfod</b>	<b>1 Hydref 2020</b>
<b>Aelod/Swyddog Arweiniol</b>	<b>Y Cyngorydd Hugh Evans a'r Cyngorydd Mark Young/Emlyn Jones, Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad</b>
<b>Awdur yr Adroddiad</b>	<b>Emlyn Jones, Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad</b>
<b>Teitl</b>	<b>Archwilio'r cynllun adfer ar ôl Covid-19 ar gyfer y flaenoriaeth adfer cymorth i fusnesau</b>

## **1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

1.1. Mae'r adroddiad yn ymwneud â chynlluniau adfer cymorth i fusnesau'r Cyngor.

## **2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?**

2.1. Lluniwyd yr adroddiad hwn er mwyn rhoi cyfle i Aelodau archwilio cynllun adfer y Cyngor mewn perthynas â chymorth i fusnesau a deall y cynnydd a wnaed hyd yma yn ogystal â'r ymgysylltiad gyda swyddfa Rhaglen Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC) mewn perthynas ag adferiad economaidd.

## **3. Beth yw'r Argymhellion?**

3.1. Cefnogi swyddogion o ran y gwaith sydd wedi'i wneud mewn perthynas â chefnogi busnesau o fewn y Sir a'u cyfraniad parhaus at waith adferiad economaidd rhanbarthol mewn partneriaeth â Swyddfa Rhaglen BUEGC a Llywodraeth Cymru (LIC).

3.2. Cyngori swyddogion ynghylch unrhyw feysydd craffu mewn perthynas â'r flaenoriaeth hon.

## **4. Manylion yr Adroddiad**

4.1. Mae'r Coronafeirws yn argyfwng iechyd cyhoeddus, ond mae'r effaith ar yr economi a busnesau hefyd yn hollbwysig. Caewyd canolfannau'r dref, dywedwyd wrth ddefnyddwyr am aros gartref ac fe wnaeth Sir Ddinbych brofi'r effaith uniongyrchol wrth i fusnesau gau. Mae'n bosibl hefyd y bydd ein busnesau a

chanol ein trefi'n cael trafferth adfer yn y tymor canolig a'r hirdymor. Mae'n bosibl na fydd rhai busnesau'n gallu adfer o gwbl.

- 4.2. Mae economi Sir Ddinbych yn amrywiol. Manwerthu, hamdden a thwristiaeth yw'r cyflogwyr mwyaf yn y Gogledd, a thwristiaeth ac amaethyddiaeth yw'r sectorau allweddol yn y De. Mae Parc Busnes Llanelwy a nifer o ystadau diwydiannol llai hefyd yn ganolfannau cyflogaeth pwysig ar draws y Sir. Mae tirwedd ac amgylchedd Sir Ddinbych yn gryfder economaidd pwysig sy'n denu ymwelwyr a buddsoddiad.
- 4.3. Mae'r diwydiant Twristiaeth yn cyfrif am £509 miliwn o economi Sir Ddinbych. Fe wnaeth y cyfnod clo ddod â hynny i stop. Yn 2018, roedd 3,625 o fusnesau wedi cofrestru at ddibenion TAW o fewn y Sir. Mae'r mwyafrif o'r busnesau hyn yn rhai micro neu fychan eu natur, gydag 88% yn cyflogi llai na 10 o bobl. Mae 98.5% o'r busnesau wedi cofrestru fel busnesau bach (llai na 250 o gyflogwyr).
- 4.4. Dim ond 10 busnes oedd yn cyflogi mwy na 250 o bobl o fewn y Sir yn 2018, gan gynrychioli 0.275% o'r holl fusnesau.
- 4.5. Byddwn yn ymgymryd ag adferiad economaidd ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol. Bydd hyn yn cynnwys llywodraeth leol a chanolog yn ogystal â'r sector preifat.
- 4.6. Mae LIC a BUEGC yn datblygu cynllun adfer cymorth i fusnesau ac economaidd cenedlaethol a rhanbarthol. Mae CSDd yn cyfrannu at y cynllun hwnnw yn ystod y cam llunio yn ogystal â'r camau gweithredu a llywodraethu. Sefydlwyd cyfarfodydd wythnosol o'r BUEGC, LIC a'r 6 Awdurdod Lleol yn dilyn y cyfnod clo i rannu arferion da, sicrhau cydlyniad ar draws y rhanbarth a darparu cymorth a chyngor. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi parhau.
- 4.7. Comisiynodd y BUEGC arolwg o fusnesau ar draws Gogledd Cymru i gael gwell dealltwriaeth o effaith y pandemig ar fusnesau a pha gymorth sydd ei angen i adfer. Dosbarthwyd yr arolwg ar draws bob un o'n rhwydweithiau busnes ac fe wnaeth dros 200 o fusnesau gwblhau'r arolwg. Mae Atodiad 1 yn darparu adroddiad o ganfyddiadau arolwg Sir Ddinbych. Mae adroddiad rhanbarthol wedi cael ei gynhyrchu hefyd er mwyn llywio'r dull rhanbarthol.

4.8. Bydd canfyddiadau'r arolwg yn ogystal â gwybodaeth arall yn cael ei defnyddio i lywio darn pellach o waith a gaiff ei gomisiynu gan y BUEGC er mwyn deall effaith y pandemig ar sectorau penodol yn well ac er mwyn dechrau datblygu cynllun adfer economaidd rhanbarthol gan gynnwys ymyraethau tymor byr a chanolig.

4.9 Mae'r Cyngor yn cymryd camau uniongyrchol ac anuniongyrchol er mwyn annog a chefnogi adferiad economaidd a busnesau.

- Mae'r Cyngor wedi cytuno i nifer o themâu adfer.
- Mae cymorth i fusnesau yn un o'r themâu adfer, gyda'r nod cyffredinol o helpu ein busnesau i adfer yn dilyn y pandemig Covid-19.
- Cynhyrchir cynllun adfer ar gyfer bob thema. Caiff y cynllun ei gynhyrchu gan y swyddog arweiniol mewn ymgynghoriad â'r Aelod Arweiniol a phartneriaid a gwasanaethau allweddol Cyngor Sir Ddinbych. Yn dilyn hynny, caiff y cynllun ei gyflwyno i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Sesiwn Briffio'r Cabinet ac Arweinwyr Grwpiau gwleidyddol.

4.10 Mae'r cynllun adfer Cymorth i Fusnesau wedi'i atodi fel Atodiad 2. Mae gan y Thema Adfer Cymorth i Fusnesau 4 o is-themâu sy'n gydgysylltiol, sef

- Canol Trefi - Mike Jones, Swyddog Arweiniol
- Cyswllt Busnesau - Gareth Roberts, Swyddog Arweiniol
- Twristiaeth - Peter Mcdermott, Swyddog Arweiniol
- Caffael - Helen Makin, Swyddog Arweiniol

Mae gan bob is-thema swyddog arweiniol a fydd yn cynhyrchu cynllun adfer ar eu cyfer.

Mae'r cynlluniau ar gyfer bob is-thema ar gamau gwahanol o ran eu datblygiad, fodd bynnag, mae llawer iawn o waith cefnogi 'busnes fel arfer' yn mynd rhagddo.

## **5. Canol Trefi**

5.1. Gellir dod o hyd i gynllun gweithredu Canol Trefi yn Atodiad 3 i'r adroddiad. Mae'r cynllun hwn wedi'i baratoi'n drylwyr ac wedi'i gyflwyno i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Sesiwn Briffio'r Cabinet ac Arweinwyr Grŵp. Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl Canol Trefi a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ym mis Mehefin 2020 ac mae wedi cyfarfod o leiaf bob pythefnos ers hynny. Mae'r Grŵp Gorchwyl yn cynnwys swyddogion o nifer o wasanaethau ar draws y Cyngor, yn ogystal â

chynrychiolwyr o grwpiau busnes, yr Heddlu, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Vision Support a'r Bartneriaeth Rheoli Cyrchfan Twristiaeth. Mae'r swyddogion Cyngor ar y grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Adrannau Traffig; Gwarchod y Cyhoedd; Datblygu Economaidd a Busnes; Cludiant Teithwyr; Cyfathrebu; Twristiaeth; Strydwedd; Asedau Priffyrdd; Hamdden Sir Ddinbych; a Chontractau a Chyfleusterau.

Nod cyffredinol y Grŵp Gorchwyl yw helpu i gefnogi a chynnal y broses o ailagor canol ein trefi yn dilyn Covid-19.

## **6. Cyswllt Busnes**

Mae'r is-thema hon yn ymwneud â sut fydd y Cyngor yn cefnogi busnesau drwy ein cymorth rheoleiddiol a gweithgareddau cymorth ehangach i fusnesau. Ymgynghorwyd â'r Aelodau Arweiniol ar y cynllun gweithredu hwn a chaiff ei gyflwyno i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar 15 Hydref.

Roedd llawer o'r gwaith cynnar a gwblhawyd fel rhan o'r adferiad cymorth i fusnesau yn ymwneud â sicrhau fod busnesau'n gallu cael mynediad at y cymorth ariannol yr oeddent yn gymwys ar ei gyfer. Gweithiodd y tîm Datblygu Economaidd a Busnes gyda Chyfraddau Busnes i gysylltu (gwneud galwadau ffôn ac anfon negeseuon e-bost) â nifer o fusnesau nad oeddent wedi ymgeisio am y grant Ardrethi Annomestig. Cysylltwyd â channoedd o fusnesau i'w hannog nhw i ymgeisio am y grant i sicrhau ein bod yn gwneud y mwyaf o'r cymorth ariannol i fusnesau yn Sir Ddinbych. Mae miliynau o bunnoedd wedi'i dalu i'n busnesau. Mae'r tîm Datblygu Economaidd a Busnes wedi bod yn darparu canllawiau a chyngor i fusnesau gan ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar y wefan yn rheolaidd ynghylch y [cynlluniau ariannol](#) amrywiol sydd ar gael i fusnesau yn ogystal â darparu dolenni i ganllawiau yn ymwneud ag agor yn ddiogel.

Mae'r tîm Datblygu Economaidd a Busnes wedi prosesu Grantiau Busnesau Newydd ar ran LIC. Hyd yma, mae 48 o fusnesau a gafodd eu sefydlu ar ôl mis Ebrill 2019 ac nad ydynt wedi gallu cael mynediad at gyllid arall, wedi derbyn grant o £2,500 yr un, sef cyfanswm o £120,000. Mae'r tîm Datblygu Economaidd a Busnes yn prosesu Grantiau Gofal Plant ar ran LIC.

Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ynghylch y ffordd orau i ddefnyddio'r cyllid canol trefi Covid-19, gan ystyried opsiynau gwahanol.

## **7. Twristiaeth**

Bydd y cynllun gweithredu yn cael ei gyflwyno i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar 24 Medi, a Sesiwn Briffio'r Cabinet yn dilyn hynny. Mae'r Cyngor wedi gwneud llawer o waith gyda phartneriaid a busnesau eraill drwy weithgor y Bartneriaeth Rheoli Cyrchfan a Chanol Trefi. Gellir dod o hyd i grynodedb o'r gwaith sydd wedi'i gwblhau hyd yma yn Atodiad 4.

## **8. Caffael**

Mae'r is-thema hon yn ymwneud â sut y gallai'r Cyngor wneud y mwyaf o gyfleoedd i fusnesau lleol gael mynediad at gontractau gyda'r Cyngor ac adolygu rheolau caffael y Cyngor i gefnogi busnesau lleol yn well. Mae cynllun gweithredu wrthi'n cael ei gwblhau ar hyn o bryd i'w drafod gydag Aelodau Arweiniol a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

Gweler Atodiad 5 i weld y wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â'r cynnydd hyd yma yn erbyn y cynllun adfer. Mae'n cynnwys manylion am yr ystod o gamau gweithredu y mae'r Cyngor eisoes wedi'u cymryd.

## **9. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

9.1 Bydd y thema adfer cymorth i fusnesau yn cyfrannu at flaenoriaethau corfforaethol Cymunedau Cysylltiedig a Chymunedau Cadarn. Bydd hefyd yn cyfrannu at ganlyniadau Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol y Cyngor.

## **10. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Caiff y costau eu bodloni o fewn cyllidebau presennol y gwasanaeth. Rydym wedi cael mynediad at gyllid grant Llywodraeth Cymru ar gyfer ychydig o'r gwaith cyfalaf o fewn canol trefi.

## **11. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

11.1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Craffu mewn perthynas â gwaith adfer cymorth i fusnesau. Nid oes angen asesiad o'r effaith ar les.

## **12. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

12.1 Ymgynghorwyd â gwasanaethau amrywiol ac asiantaethau partner CSDd, er enghraifft, Heddlu Gogledd Cymru, grwpiau busnes trefi, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Aelodau Arweiniol, y Cabinet ac Arweinwyr Grŵp.

## **13. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

13.1 Fel a nodwyd yn yr adroddiad, mae'n bwysig bod y gweithgarwch naill ai'n cael ei gadw o fewn adnoddau presennol, neu'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Cyngor wedi gweinyddu mwy na £40m o gymorth uniongyrchol i fusnesau lleol trwy grantiau uniongyrchol a rhyddhad ardrethi ar ran Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn eithrio'r taliadau wedi'u targedu i helpu sectorau penodol fel darparwyr gofal cymdeithasol. Dim ond gan Llywodraeth Cymru y gellir ariannu'r lefel hon o help, ond mae'n rhoi pwysau o ran adnoddau ar y Cyngor i ddarparu. Disgwylir y bydd y Cyngor yn parhau i helpu i weithredu cynlluniau o'r fath yn dilyn cyhoeddiadau diweddar am ymestyn cyfyngiadau a fydd yn effeithio ar allu busnesau i adfer.

## **14. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

14.1 Nid oes unrhyw risgiau arwyddocaol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

## **15. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae pwerau Craffu mewn perthynas â'r materion yn yr adroddiad hwn yn unol ag:

- Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000;
- Adran 7 yng Nghyfansoddiad y Cyngor